

Y Synhwyrâu

Heddiw, agor ein clustiau i wrando, ein llygaid i weld, ein dwylo i gyffwrdd, ein meddyliau i ddeall a'n calonnau i ymateb i her dy efengyl di.

EMYNAU

Gwylw'n rhag colli'r ddawn i synnu a rhyfeddu at wychder ein byd:

Tydi, a roddaist liw i'r wawr
 a hud i'r machlud mwyn,
 tydi, a luniaist gerdd a sawr
 y gwanwyn yn y llwyn,
 O cadw ni rhag colli'r hud
 sydd heddiw'n crwydro drwy'r holl fyd.

T. Rowland Hughes (*Caneuon Ffydd*: 131)

Trwy ddefnyddio'n synhwyrâu gallwn fynegi ein diolch i Dduw:

Cofia bob amser, cofia bob tro,
 paid ag anghofio dweud, "Diolch";
 cofia bob amser, cofia bob tro,
 cofia ddweud, "Diolch, Iôr."

Lynda Masson cyf. Delyth Wyn (*Caneuon Ffydd*: 145)

Mae fy holl gorff yn rhodd gan Dduw i ddweud wrth bawb amdano:

Ces lygaid ganddo imi weld
 y ddaear hardd i gyd,
 a heb fy llygaid ni chawn weld
 yr un o blant y byd;
 ces glust i glywed glaw a gwynt
 a thonnau ar y traeth:
 rhaid imi ddweud wrth bawb o'r byd,
 ef a'm gwnaeth.

Alan Pinnock cyf. R. Gwilym Hughes (*Caneuon Ffydd*: 155)

Mae Duw sy'n rhoi, hefyd, yn ein cynnal:

Efe sy'n ein cynnal, mor dda yw ein Duw,
 efe sy'n ein cynnal, mor dda yw ein Duw,
 efe sy'n ein cynnal, mor dda yw ein Duw,
 fe roes ei unig Fab er mwyn i ni gael byw.

Anad. *cyf.* Olive Edwards (*Caneuon Ffydd*: 158)

Agorwn ein llygaid a'n clustiau i weld a gwranddo ar Iesu er mwyn dod i'w adnabod:

Agor ein llygaid
 i weled yr Iesu,
 i 'mestyn a'i gyffwrdd
 a dweud i ni ei garu;
 agor ein clustiau
 a dysg i ni wrando,
 agor ein calon
 i 'nabod yr Iesu.

Robert Cull *cyf.* Catrin Alun (*Caneuon Ffydd*: 425)

Gofynnwn i Dduw ein cyffwrdd a'n bendithio fel y gallwn arddangos cariad Duw i eraill:

Dod ar fy mhen dy sanctaidd law,
 O dyner Fab y Dyn;
 mae gennyt fendith i rai bach
 fel yn dy oes dy hun.

Eifion Wyn (*Caneuon Ffydd*: 681)

GWEDDIAU

Cynorthwya ni i ddefnyddio'n synhwyrau er mwyn profi'r gogoniannau sydd o'n cwmpas:

Diolch am i ti wrth ein llunio roddi inni synhwyrâu fel y gallwn fwynhau dy greadigaeth. Gofynnwn i ti flaenllymu ein synhwyrâu fel y byddwn yn fwy effro i'r gogoniannau o'n cwmpas. Adfer ynom ryfeddod y plentyn fel y gallwn ddotio o'r newydd at gyfoeth dy gread. Amen.

John Owen

Rho i ni lygaid i weld o'r newydd brydferthwch rhod y tymhorau:

Diolch i ti am lygaid i weld. Ymhyfrydwn yn adnewyddiad bywyd yn y gwanwyn. Yna daw'r haf a'i holl gyfoeth i'n syfrdanu o'r newydd, a phan feddyliwn ein bod wedi gweld eithaf pob prydfferthwch fe ddaw'r hydref a'i liwiau ysblennydd. Hyd yn oed yn noethni'r gaeaf, fe welwn harddwch ysgerbydau'r coed a mantell yr eira fel clogyn dros gopa'r mynydd. Agor ein llygaid, Arglwydd, i weld rhyfeddodau dy gread. Amen.

John Owen

Cyflwynwn y rhai sy'n methu defnyddio eu synhwyrâu i'th ofal:

Ond yr ydym am gofio am y rhai hynny heddiw sydd ddim yn gweld, yn clywed, yn arogl, yn teimlo, yn blasu, a chyflwynwn hwy, ynghyd â'r rhai sy'n eu cynorthwyo i ti, gan ddiolch amdanynt. Amen.

Meirion Morris

Maddau i ni am gymryd dy roddion yn ganiataol a methu gweld y wyrth sydd o'n cwmpas:

Maddau i ni am ein bod ni weithiau yn colli'r ymdeimlad
o ddiolchgarwch,
yn dwyn agwedd hunanfodlon a gor-gyfarwydd
â chyfoeth y greadigaeth.

Maddau i ni am gymryd dy roddion niferus yn ganiataol,
yn eu hanghofio,
yn eu gwastraffu,
hyd yn oed yn eu camddefnyddio.

Rwyt ti wedi ein bendithio mor helaeth:

dysg ni i ddefnyddio dy roddion oll yn ddoeth. Amen.

Eirian a Gwilym Dafydd

Rwyt ti wedi'n bendithio'n hael; gwerthfawrogwn y cyfan trwy ein synhwyrâu:

Diolchwn i ti am feddyliau fel medrwn ddeall, holi a dysgu,
am synhwyrâu i weld, clywed, arogl, blasu a chyffwrdd,
ac am iechyd i fwynhau, sawru a dathlu.

Rwyt ti wedi ein bendithio mor helaeth:

dysg ni i ddefnyddio dy roddion oll yn ddoeth. Amen.

Eirian a Gwilym Dafydd

ADNODAU

Profiad ysgytiol y dyn dall oedd ei fod yn gweld unwaith yn rhagor:

Atebodd yntau, “Ni wn i a yw'n bechadur ai peidio. Un peth a wn i: roeddwn i'n ddall, ac yn awr rwyf yn gweld.”

Ioan 9: 25

Mae'r corff yn undod lle mae'r aelodau i gyd yn rhan ohono:

Oherwydd fel y mae'r corff yn un, a chanddo lawer o aelodau, a'r rheini oll, er eu bod yn llawer, yn un corff, fel hyn y mae Crist hefyd.

1 Corinthiaid 12: 12

Mae'n rhaid defnyddio'r synhwyrâu a hynny er ein lles:

Ystyriwch, fy nghyfeillion annwyl. Rhaid i bob un fod yn gyflym i wrando, ond yn araf i lefaru, ac yn araf i ddogio.

Iago 1: 19

Mae'r Duw sydd wedi'n creu, hefyd, yn ein hadnabod a'n deall:

Gwyddost ti pa bryd yn byddaf yn eistedd ac yn codi;
 yr wyt wedi deall fy meddwl o bell;
 yr wyt wedi mesur fy ngherdded a'm gorffwys,
 ac yr wyt yn gyfarwydd â'm holl ffyrdd.

Salm 139: 2-3

Mae'r proffwyd yn cyhuddo cenedl Israel o fod yn ddall a byddar:

“Chwi sy'n fyddar, clywch;
 chwi sy'n ddall, edrychwch a gwelwch.”

Eseia 42: 18

Yn ôl manifesto Iesu bydd y deillion yn gweld a'r byddariaid yn clywed:

Y mae'r deillion yn cael eu golwg yn ôl, y cloffion yn cerdded, y gwahangleifion yn cael eu glanhau a'r byddariaid yn clywed, y meirw yn codi, y tlodion yn cael clywed y newydd da.

Mathew 11: 5

DYWEDIADAU A THRADDODIADAU

Mae pob sefyllfa a chyflwr, pa mor ddifrifol bynnag, yn gyfle creadigol i Dduw, dim ond i ddyn droi ato. Yn Efengyl Ioan, arwydd o ogoniant ac o allu Duw ydi'r gwyrthiau neu'r 'arwyddion'.

Mae'r synhwyrâu'n rhoi bywyd llawn i ni, a phan gollwn ni ddefnydd un ohonyn nhw mae bywyd yn mynd yn feichus.

Penderfynodd Franklin D. Roosevelt, un o arlywyddion America, wneud arbrawf er mwyn gweld a oedd pobl yn gwrando o ddifrif. Wrth ysgwyd llaw â'r gwahoddedigion y diwrnod hwnnw, meddai wrth bob un fesul un, 'Mi wnes i lofruddio fy mam yng nghyfraith y bore yma' a'r atebion yn ddi-feth oedd, 'O! neis iawn, mae'n hyfryd eich gweld chi Arlywydd'

neu ‘Diolch i chi am y gwahoddiad.’ Dim ond un, yn ôl yr hanes, a atebodd yn wahanol, ‘O mae’n siŵr ei bod hi’n gofyn amdani!’ Tybed ydi pobl yn gwrando?